O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1634 (Cy. 213)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32 (Coryton) i Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Awst 2015* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafford Llundain – De Cymru (yr M4) ("y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2015 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32 (Coryton) i Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Medi 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd yn Ninas

a Sir Caerdydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

**Cyfyngiadau**

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, bydd y llain galed sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain a cherbytffordd tua'r gorllewin y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 ar gael i'w defnyddio fel lôn draffig.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2, drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**7.** Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(4)** a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed sy'n gyffiniol â'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 a chyfarwyddir traffig i defnyddio'r llain galed benodedig.

**Cymhwyso**

**8.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Awst 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1974/502.
**(4)** O.S. 1982/1163.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32.

Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33.

### ATODLEN 2
### Terfyn cyflymder 50 mya dros dro a defnyddio'r llain galed dros dro ar gyfer traffig

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 hyd at bwynt 400 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Pont Droed Radur.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 hyd at bwynt 400 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Pont Droed Radur.